

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014-2015

Tabl Cynnwys

Adrannau	Tudalen
Rhagair gan Lywydd y Tribiwnlys – Carol Cobert	2
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr – Andrew Shipsides	3
1. Tribiwnlys Prasio Cymru a'i brif swyddogaethau	4
2. Strwythur Trefniadaeth Tribiwnlys Prasio Cymru	6
3. Y Cyngor Llywodraethu a'i bwyllgorau	8
4. Gweithdrefn etholi Tribiwnlys Prasio Cymru	11
5. Strwythur Staff Tribiwnlys Prasio Cymru	13
6. Aelodaeth Tribiwnlys Prasio Cymru	15
7. Hyfforddiant a Datblygiad	17
8. Llwyth Gwaith	18
9. Cwynion	20
10. Ystâd Tribiwnlys Prasio Cymru	21
11. Technoleg Gwybodaeth	23
12. Adnoddau Ariannol Tribiwnlys Prasio Cymru	25

Atodiadau

- A** Dadansoddiad o oed a chenedl yr aelodaeth (fel ar 31 Mawrth 2015)
- B-1** Ystadegau Llwyth Gwaith am 2014/2015
- B-2** Ystadegau Llwyth Gwaith am 2014/2015
– Dadansoddiad o Achosion Amrywiol
- C** Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2014/2015

Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

Wrth adolygu'r flwyddyn ddiwethaf, mae'n bleser i nodi ymdriniwyd ein busnes craidd yn fanwl a thrwyadl, fel y mae bob amser, sydd yn golygu bod y nifer o gwynion ac atgyfeiriadau i'r uwch lysoedd yn brin iawn. Mae'r Cyngor Llywodraethu yn adolygu'r busnes craidd a pholisïau'r Tribiwnlys yn barhaol; ac ar ôl rownd cyfan o etholiadau blwyddyn yma, adolygwyd aelodaeth ein Pwyllgorau Cynghori, yn galluogi'r Cyngor i adnewyddu ei aelodaeth. Mae pob Pwyllgor wedi ei gadeirio gan aelod o'r Cyngor Llywodraethu ac mae aelodaeth wedi ei ffurfio o gymeradwyaethau gan grwpiau'r cadeiryddion rhanbarthol. Mae'r pwyllgorau yn delio'n effeithiol gyda meysydd pwnc sy'n cynorthwyo'r Cyngor Llywodraethu yn ei rôl o lunio polisïau . Mae nifer o'r staff yn chwarae rôl bositif iawn mewn strwythur y pwyllgor ac wrth gynorthwyo gwaith y Cyngor Llywodraethu, ac rwyf yn eu diolch yn arbennig am eu proffesiynoldeb wrth gyflwyno materion ar gyfer trafodaeth - a hefyd yn yr hyfforddiant o aelodau a chadeiryddion. Yn ogystal â hyn, mae'n bleser i nodi bod y Cyngor Llywodraethu wedi cadarnhau presenoldeb y Dirprwy Gynrychiolwyr Rhanbarthol yn ei gyfarfodydd chwarterol.

Fel pob corff a noddir gan Lywodraeth Cymru rydym wedi gweld gostyngiad yn ein cyllid eleni, sy'n golygu mae'n rhaid i ni fod yn ofalus gydag ein gwariant. Gan fod dau draean o holl wariant yn cael ei ddefnyddio i dalu costau staff, mae'n anochel y bydd y gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd dioddef gostyngiadau bellach i'n cyllideb gyffredinol.

Mae'r broses etholiadol yn drafferthus ac nid yw'n arbennig o effeithlon, ac mewn ymdrech i wella'r broses ddemocrataidd bydd newidiadau i'r rheoliadau yn cael eu harchwilio gyda'r Llywodraeth Gymraeg.

Rwyf yn croesawu aelodau newydd sydd wedi eu penodi a chadeiryddion newydd eu hethol i'r gwasanaeth, ac rwyf yn diolch i'n holl gadeiryddion ac aelodau am y ffordd effeithlon y maent yn cynnal apeliadau. Mae hyfforddiant yn angenrheidiol i aelodau er mwyn eu galluogi i fod yn fedrus yn eu gwasanaeth, ac rwyf yn llongyfarch y Pwyllgor Hyfforddiant am y cynnwys a maint o hyfforddiant mae'r pwyllgor wedi ei drefnu dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf yn hapus bod y presenoldeb o aelodau mewn sesiynau hyfforddi wedi gwella yn ddiweddar. Mae'r asesiad o gadeiryddion ac aelodau yn parhau ac rwyf yn diolch i'r gwerthuswyr am eu diwydrwydd wrth gynnal yr asesiadau.

Rwyf wedi fy nghalonogi gan y cynnydd sy'n cael ei wneud i ddatblygu ymhellach sgiliau'r iaith Gymraeg a'r ymwybyddiaeth o ymateb yn ysgrifenedig ac ar lafar i'r rhai sy'n cysylltu â'r Tribiwnlys yn yr iaith. Yn arbennig, rwyf yn cymeradwyo gwaith y Pwyllgor Dwyieithrwydd yn ein helpu ni fel sefydliad i wynebu ac ateb y sialensiau a osodwyd ar ein cyfer gan ddatblygiad safonau iaith gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg.

I gloi, rwyf yn diolch y Prif Weithredwr, Clercod Rhanbarthol a holl aelodau a staff y Tribiwnlys sydd wedi cyfrannu ar y cyd tuag at y gwasanaeth effeithlon a ddarperir gan y TPC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Diolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.

Carol Cobert

Llywydd – Tribiwnlys Prisio Cymru

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Mae'r flwyddyn yma wedi gweld

- Trosiant cyson o apeliadau
- Nifer bychan o atgyfeiriadau i'r llysoedd uwch, dim cwynion a dim atgyfeiriadau i'r ombwdsman
- Nifer sylweddol o etholiadau, gan gynnwys etholiad y llywydd a rhan fwyaf o gynrychiolwyr rhanbarthol y Tribiwnlys
- Ailfodelu pwyllgorau cynghori'r Cyngor Llywodraethu
- Y gweithrediad parhaus o ein cynllun arfarnu'r aelodau
- Cyflwyno polisi hyfforddiant ffurfiol ar gyfer aelodau
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ar gyfer yr holl staff ac aelodau
- Nifer fawr o'r staff yn manteisio ar astudiaethau'r iaith Gymraeg, ar lefelau gwahanol
- Adnewyddu systemau cyfrifiadurol pen desg, a chyflwyno iPads i gario deunydd cyfeiriadurol a deddfwriaeth i'w ddefnyddio mewn gwrandawadau allanol y tribiwnlys, a
- Gwaith ymchwiliol er mwyn datblygu system cronfa data apêl newydd

Mae'r eitemau yma i gyd ac eitemau eraill yn cael eu trafod yn y tudalennau sy'n dilyn.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn brysur a cynhyrchiol; ac rwyf yn ddiolchgar i'r staff ac aelodau am eu hymroddiad a gwaith caled wrth fynd a'r Tribiwnlys ymlaen. Fel y dywedais yn yr adroddiad llynedd, mae gan y Tribiwnlys hanes hir a llwyddiannus; ond nid ydym yn sefydliad sy'n edrych i'r gorffennol. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein hoffrwm ac ein heffeithlonrwydd. Credaf fod hyn yn glir yng nghynnwys yr adroddiad hwn.

Andrew Shipsides
Prif Weithredwr – Tribiwnlys Prisio Cymru

1 Tribiwnlys Prasio Cymru a'i brif swyddogaethau

- 1.1 Sefydlwyd Tribiwnlys Prasio Cymru (TPC) drwy reoliadau statudol ar 1 Ebrill 2010. Mae'n un corff ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cyfuno ac yn disodli nifer o ragflaenwyr a oedd yn gyrrff lleol ledled y wlad yn dyddio yn ôl, mewn amrywiol o ffurfiau, i greu'r llysoedd prasio lleol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1948. Mae ganddo hanes hir a llwyddiannus drwy hyn, ar ôl ymdrin â channoedd ar filoedd o apeliadau dros y degawdau, gyda'r atgyfeiriadau i uwch lysoedd yn brin iawn. Rhagnodir swyddogaethau barnwrol a gweinyddol presennol Tribiwnlys Prasio Cymru gan:
- Rheoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru 2010 (fel y'i diwygiwyd yn 2103),
 - Rheoliadau 19 i 37 yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid i Restri ac Apeliadau) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd),
 - Rheoliadau 16 i 32 yn Rheoliadau'r Dreth Cyngor (Newid i Restri ac Apeliadau) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd),
 - Atodlen 4A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac
 - Adrannau 45 a 46 Deddf Draenio Tir 1991 (fel y'i diwygiwyd).
- 1.2 Mae gan Tribiwnlys Prasio Cymru swyddogaeth farnwrol statudol i wrando ar a phenderfynu ar apeliadau yn erbyn prasio eiddo ar gyfer ardrethi annomestig, treth cyngor ac ardrethi draenio. Mathau eraill o apeliadau sy'n dod o dan awdurdodaeth y Tribiwnlys Prasio yw'r rhai ynghylch atebolrwydd y dreth gyngor, hysbysiadau cwblhau a mathau penodol o gosbau a gyflwynir gan awdurdodau bilio (cyngorau awdurdodau unedol Cymru) neu Asiantaeth y Swyddfa Brasio.
- 1.3 Mae swyddogaethau gweinyddol Tribiwnlys Prasio Cymru, sy'n cefnogi ei rôl farnwrol, yn cynnwys:
- darparu swyddfeydd;
 - penodi staff yn cynnwys y Prif Weithredwr/Clerc y Tribiwnlys;
 - darparu technoleg gwybodaeth;
 - darparu offer;
 - darparu hyfforddiant i staff ac aelodau;
 - cydlynu darpariaeth cyngor cyffredinol ar y gweithdrefnau yn ymwneud â thrafodion y Tribiwnlys Prasio; a
 - rheoli materion cydymffurfio statudol.
- 1.4 Mae'r Tribiwnlys yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru; ac felly darperir cyllid gan Lywodraeth Cymru ar sail cyllideb flynyddol, dan gytundeb fframwaith ffurfiol, a adolygwyd a chytunwyd diwethaf yn 2013/14.
- 1.5 Ac eithrio'r trefniadau rheoli cydweithredol *hyd fraich* y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru, mae'r Tribiwnlys Prasio yn gorff cwbl annibynnol. Yn bwysig iawn mae'n hollol annibynnol ar Asiantaeth y Swyddfa Brasio, sy'n

pennu gwerthoedd ardrethol eiddo a'r awdurdodau bilio sy'n anfon y biliau ardrethi a'r dreth gyngor.

2 Strwythur Trefniadaeth Tribiwnlys Prasio Cymru

- 2.1 Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn cynnwys aelodau sy'n gwrando ar ac yn penderfynu ar apeliadau, a staff sy'n darparu gwasanaethau cymorth i'r aelodaeth. Mae'r rheoliadau yn rhagnodi y dylai'r Tribiwnlys gynnwys isafswm o 186 ac uchafswm o 236 o aelodau. Cyflogwyd y Tribiwnlys 21 aelodau staff ar ddechrau cyfnod yr adroddiad hwn. Disgynnodd y nifer yma i 20 ar gyfer chwarter diwethaf y flwyddyn (manyllion mewn adran 5).
- 2.2 Mae'r aelodau yn wirfoddolwyr lleol a benodir i'r Tribiwnlys ar y cyd gan y Llywydd a'r awdurdodau bilio (AB) yng Nghymru, am gyfnodau o hyd at chwe blynedd. Ni thelir aelodau, ond gallant hawlio costau teithio a chynhaliaeth. Nid oes unrhyw oedran ymdeol awtomatig ar gyfer aelodau. Mae yna broffil oedran yr aelodaeth yn Atodiad A.
- 2.3 Penodir y rhan fwyaf o aelodau am y cyfnod llawn o chwe blynedd. Caniateir cyfnodau newydd o benodi, felly gall aelodau aros gyda'r tribiwnlys am gyfnodau hir, di-dor. Er y gall gwneud penodiadau ar unrhyw adeg yn dibynnu ar bryd mae swyddi gwag dros dro yn codi, mae cylchred rheolaidd yn ei lle ar gyfer y rhan fwyaf o benodiadau. Mae'r aelodau eang wedi ei rhannu'n dair cyfran, a gwelir penodiad ar un gyfran bob yn ail flwyddyn. Mewn geiriau eraill, mae tua thraean o benodiadau yn dod i ben bob dwy flwyddyn - sy'n hyrwyddo proses penodi mawr, yn cynnwys pob (neu bron pob) awdurdod lleol Cymraeg. Mae'r flwyddyn adroddiad yma wedi bod yn un o'r blynyddoedd penodi mawr yma.
- 2.4 Mae'r aelodaeth a'r staff wedi eu grwpio yn dimau rhanbarthol (gogledd, de, dwyrain a gorllewin). Mae'r trefniant daearyddol hwn wedi ei bennu gan reoliadau o ran yr aelodaeth, yn bennaf er mwyn darparu mecanwaith ar gyfer cael pobl yn rhan o Gyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys a darparu gwasanaeth lleol i ddefnyddwyr y tribiwnlys. Caiff aelodau wasanaethu yn unrhyw le yn y wlad, ond at ddibenion ymarferol ac effeithlonrwydd economaidd, maent yn tueddu i wasanaethu yn eu rhanbarth. Dechreuodd pob rhanbarth y flwyddyn gyda thîm o bum aelod o staff, yn cynnwys cymysgedd o swyddogion tribiwnlys sy'n ymgymryd â mwyafrif y gweithgareddau rheoli achosion ac yn darparu cymorth gweithdrefnol a cyfreithiol i aelodau, a swyddogion cymorth gweinyddol sy'n darparu gwasanaeth cymorth gweinyddol. Arweinir pob tîm gan uwch swyddog rheoli/cynghori achosion, a elwir y Clerc Rhanbarthol.
- 2.5 Mae yna deg cadeirydd ym mhob rhanbarth. Fe'u hetholir gan yr aelodaeth lawn ac yn gwasanaethu yn y swydd hon nes bod cyfnod eu haelodaeth gyffredin yn dod i ben. Os ydynt yn cael eu hailbenodi fel aelod cyffredin, gallant sefyll i'w hailethol fel cadeirydd. Gwelodd diwedd 31 Mawrth 2014 terfyniad nifer sylweddol o benodiadau aelodaeth (yn unol â'r cylchred penodiad a amlinellir ym mharagraff 2.3 uchod), gan gynnwys aelodau a oedd yn gadeiryddion. O ganlyniad, cyhoeddwyd etholiadau ar gyfer cyfanswm o 12 swyddi cadeirydd ar ddechrau'r cyfnod adroddiad yma. Hyd nes yr oedd y prosesau etholiadol gofynnol yn statudol wedi eu cwblhau, gweithredwyd y Tribiwnlys gyda 12 llai o gadeiryddion. Cafodd hyn effaith weithredol. Mae Adran 4 yn cyflwyno trafodaeth fwy llawn o'r gweithdrefnau etholiadol (sy'n

cael eu gosod gan reoliadau statudol) a'u heffaith yng ngoleuni profiadau eleni.

- 2.6 Mae Llywydd y Tribiwnlys yn arwain Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Priso Cymru ac yn cael ei ethol gan yr aelodaeth lawn am gyfnod o ddwy flynedd yn y swydd, a gall cael ei ailethol am dermau olynol neu wedi hynny o ddwy flynedd yn ystod ei benodiad fel aelod o'r tribiwnlys. Fodd bynnag, pan ddaw cyfnod o benodi'n aelod cyffredin i ben, mae swydd y Llywydd hefyd yn dod i ben, hyd yn oed os mae'r cyfnod arlywyddol o ddwy flynedd yn anghyflawn (serch y ffaith gall yr unigolyn cael ei ailbenodi am gyfnod olynol yn y swydd fel aelod cyffredin). Digwyddodd terfyn cynnar o lywyddiaeth o'r fath ar ddechrau cyfnod yr adroddiad hwn, gan achosi i Dribiwnlys Priso Cymru i fod hed Llywydd am tua mis tra'r oedd etholiad yn cymryd lle. Mae trafodaeth fanylach ar y sefyllfa eleni i'w gweld yn Adran 4.
- 2.7 Y Cyngor Llywodraethu yw'r corff sy'n arwain y Tribiwnlys ac yn llunio ei bolisiau. Mae'r cyngor yn ofynnol yn statudol, ac mae'n cynnwys y Llywydd, pedwar Cynrychiolydd Lleol (a etholir o blith cadeiryddion pob rhanbarth), ac unigolyn annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru. Cyfnod swydd Cynrychiolwyr Rhanbarthol yw dwy flynedd, oni bai bod hyn yn cael ei gwtogi gan eu haelodaeth gyffredin yn dod i ben (oni bai ei fod yn cael ei adnewyddu ar unwaith). Pennir swydd benodedig Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth Cymru dan ei rheoliadau ei hun. Dan y rheoliadau yma, gall y penodedig aros yn y swydd am uchafswm o deg mlynedd, ar ôl y fath cyfnod mae'n rhaid i berson newydd gael ei benodi. Mae hyn i fod i ddigwydd nesaf ym Mehefin 2016. Ni thelir aelodau'r Cyngor Llywodraethu, ond gallant hawlio costau teithio a chynhaliaeth.
- 2.8 Penodir Prif Weithredwr y Tribiwnlys gan y Cyngor Llywodraethu, ond mae'r penodiad yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn Glerc y Tribiwnlys. Y Prif Weithredwr sy'n arwain tîm rheoli'r staff (sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r pedwar Clerc Rhanbarthol).
- 2.9 Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu o dair swyddfa. Lleolir rhanbarth y gogledd yn adeiladau Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Lleolir rhanbarth y gorllewin yn adeiladu'r Llywodraeth ym Mhenllergaer (ar gyrion Abertawe). A lleolir rhanbarthau'r dwyrain a'r de mewn swyddfeydd yng Nghasnewydd sy'n cael eu rhentu gan y sector preifat. Cynhelir rhai gwrandawiadau tribiwnlys ym Mhenllergaer a Chasnewydd; ond ni chynhelir unrhyw wrandawiadau yng Nghyffordd Llandudno oherwydd ni ellir gwarantu mynediad i ystafelloedd addas ar gyfer gwrandawiadau. Cynhelir y rhan fwyaf o wrandawiadau tribiwnlys mewn lleoliadau wedi eu llogi ymhob cwr o'r wlad, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth sy'n cymryd ffactorau daearyddol i ystyriaeth o ran defnyddwyr y Tribiwnlys.

3 Y Cyngor Llywodraethu a'i bwyllgorau

- 3.1 Ar 31 Mawrth (h.y. yn union cyn cyfnod yr adroddiad hwn) aelodau'r Cyngor Llywodraethu oedd:

Miss CA Cobert JP, Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru
Mr CN Todd, Cynrychiolydd Rhanbarthol Dwyrain Cymru
Mr HM McEvoy MBE, Cynrychiolydd Rhanbarthol Gogledd Cymru
Mr AHN Clatworthy, Cynrychiolydd Rhanbarthol De Cymru
Mr JR Evans, Cynrychiolydd Rhanbarthol Gorllewin Cymru
Mr RG Parry OBE, aelod annibynnol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Fodd bynnag, ar ddiwedd y diwrnod yna, daeth cyfnodau o benodiad, fel aelodau cyffredin o'r tribiwnlys, Miss Cobert, Mr Todd, Mr Clatworthy a Mr Evans i ben. Yn unol â hynny, maent wedi peidio i fod yn aelodau o'r Cyngor Llywodraethu ar y pryd hynny, er y ffaith cafwyd pob un ohonynt benodiad newydd o chwe blynedd fel aelodau cyffredin yn cymryd effaith o 1 Ebrill 2014.

- 3.2 Yn dilyn cyfres o etholiadau, dychwelwyd y pedwar unigolyn i'w swyddi eu hunain ar y Cyngor. Ond o ganlyniad i anawsterau gyda'r prosesau etholiadol mae'r Tribiwnlys yn gorfod dilyn (sy'n cael eu trafod mewn Adran 4), mae'r cyfnod o swyddi dwy flynedd yn newid o unigolyn i unigolyn. Dangoswyd y cyfnodau presennol o benodiad ar gyfer aelodau etholedig y Cyngor Llywodraethu yn y tabl isod.

Enw	Etholiad	Terfyniad
Carol Cobert	6 Mai 2014	5 Mai 2016
Michael McEvoy	7 Mawrth 2014	6 Mawrth 2016
Anthony Clatworthy	6 Mai 2014	5 Mai 2016
Rheinallt Evans	1 Awst 2014	31 Gorffennaf 2016
Neil Todd	1 Awst 2014	31 Gorffennaf 2016

- 3.3 Mae chweched aelod y Cyngor Llywodraethu, Mr Bob Parry, wedi ei benodi gan y Llywodraeth Cymraeg. Mae dyddiadau ei benodiad presennol fel y gwelir isod. Ar ddiwedd y penodiad yma, bydd Mr Parry wedi cyflawni 10 mlynedd fel penodedig Llywodraeth Cymru, yr uchafswm yn ôl rheolau Llywodraeth Cymru ei hun. Bydd unigolyn newydd yn cael ei benodi ar y pryd yna.

3.4 Y Dirprwy Gynrychiolwyr Rhanbarthol, sydd hefyd wedi eu penodi trwy etholiad ac sy'n dirprwyo pam fo angen mewn cyfarfodydd y Cyngor Llywodraethu, ar ddechrau cyfnod yr adroddiad hwn oedd:

Mr KC Mock (Dwyrain)
 Mr DR Prytherch (Gogledd)
 Mrs BC Martin (De)
 Mr NKL Thomas (Gorllewin)

3.5 Er mwyn gwella'r trosglwyddiad o wybodaeth lywodraethol i Ddirprwy Gynrychiolwyr, penderfynwyd y Cyngor Llywodraethu yng nghyfnod yr adroddiad diwethaf i anfon holl bapuron y Cyngor Llywodraethu i'r dirprwyon, hyd yn oed os nid oedd rhaid iddynt ddirprwyo mewn cyfarfod. Yng nghyfnod yr adroddiad hwn ychwanegodd y Cyngor at hyn gan wahodd y "dirprwy lleol" i unrhyw cyfarfod y Cyngor Llywodraethu mewn rhanbarth y dirprwy, fel arsyllwr (heb hawl i bleidleisio -- oni bai ei bod yn dirprwyo am y Cynrychiolydd Rhanbarthol llawn). Tuag at ddiwedd y flwyddyn, penderfynodd y Cyngor y bydd y dirprwyon i gyd yn cael eu gwahodd i bob cyfarfod y Cyngor Llywodraethu (eto fel arsyllwr, oni bai ei bod yn dirprwyo). Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cyngor Llywodraethu llawn gyda'r holl ddirprwyon wedi eu gwahodd ym mis Mawrth 2015.

3.6 Mae presenoldeb pedwar cyfarfod y Cyngor Llywodraethu wedi ei ddangos isod:

25 Mehefin 2014, 24 Medi 2014, 3 Rhagfyr 2014, 18 Mawrth 2015

Aelod	Swydd	Yn bresennol	Nodiadau
CA Cobert	Llywydd	4	
CN Todd	Cynrychiolydd Rhanbarthol	4	
HM McEvoy	Cynrychiolydd Rhanbarthol	4	
AHN Clatworthy	Cynrychiolydd Rhanbarthol	4	
JR Evans	Cynrychiolydd Rhanbarthol	4	
R G Parry	Aelod Annibynnol	4	
KC Mock	Dirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol	2	Rhagfyr a Mawrth
DR Prytherch	Dirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol	1	Medi (anfonodd ymddiheuriad ym mis Mawrth)
BC Martin	Dirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol	1	Mawrth
NKL Thomas	Dirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol	0	(ymddiswyddwyd ym mis Mawrth)

- 3.7 Ymddiswyddwyd Mr NKL Thomas o'i swydd fel Dirprwy Gynrychiolydd ym mis Mawrth 2015. (Trefnwyd etholiad ar ôl hynny, a ddigwyddodd y tu allan i gyfnod yr adroddiad hwn. Olynydd Mr Thomas yw Mr DO Evans.)
- 3.8 Cefnogir holl gyfarfodydd y Cyngor Llywodraethu gan bresenoldeb tîm rheoli'r staff (h.y. y Prif Weithredwr a'r Clercod Rhanbarthol). Cynhelir cyfarfodydd yn chwarterol, ac eleni (fel mewn blynyddoedd blaenorol) roedd lleoliadau'r cyfarfodydd yn cylchdroi drwy'r rhanbarthau: Gorllewin (haf); Gogledd (hydref); Dwyrain (gaeaf) a De (gwanwyn). Er hynny, ar ddiwedd y cyfnod penderfynwyd cynnal y cyfarfodydd i gyd yn fwy canolog, er mwyn lleihau costau cyffredinol. Yn y dyfodol, bydd cyfarfodydd yn cymryd lle mewn adeiladau llywodraethol yn y Drenewydd a Llanfair ym Muallt.
- 3.9 Eleni, adolygir a ail-fodelwyd y Cyngor Llywodraethu'r pwyllgorau cynghori sydd yn adrodd wrtho. Dangosir y newidiadau yn y tabl isod:

Hen Bwyllgorau	Pwyllgorau newydd
Cydymffurfio Cyllid ac Archwilio Adnoddau Dynol Staff a Phersonél Hyfforddiant Staff ac Aelodau Y Gymraeg	Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth Adnoddau Dynol Hyfforddiant Dwyieithrwydd

Mae'r pwyllgorau newydd yn gweithio o fewn cylchred o bwyllgorau a ddrafftwyd gan y Prif Weithredwr gyda'r bwriad o gyflymu'r llif o wybodaeth o'r pwyllgorau i'r Cyngor Llywodraethu. Yn flaenorol, trefnwyd cyfarfodydd ar sail *ad hoc*, a arweiniodd yn aml i'r Cyngor derbyn adroddiadau awdurdodol y pwyllgorau ac argymhellion ffurfiol misoedd ar ôl i'r trafodaethau gwreiddiol ddigwydd oherwydd ddibyniaeth ar gofnodion pwyllgorau gymeradwyedig. Arweiniwyd y strwythur newydd at y cyfle i adnewyddu aelodaeth y pwyllgorau, a cheisiwyd y Cyngor Llywodraethu cymeradwyaethau gan grwpiau'r cadeiryddion rhanbarthol. Bydd y penodiadau a wnaed ar sail y cymeradwyaethau yma yn para am y flwyddyn galendr 2015. Bydd ymarferiad penodi newydd yn cymryd lle ar ddiwedd y flwyddyn hon er mwyn llyfnhau anawsterau mân mewn prosesau cymeradwyaeth rhanbarthau unigol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r weledigaeth, a adroddwyd mewn adroddiad blynyddol llynedd, y bydd y Tribiwnlys hefo strwythur pwyllgorau newydd erbyn y flwyddyn ariannol 2015/16. Pryd hynny, bydd gan y Tribiwnlys broses o benodi agor a clir, cylchred rheolaidd ar gyfer penodiadau, cylchred ar gyfer cyfarfodydd, cyfrifoldebau pwyllgorau eglur, a chyfres o reolau pwyllgor cyffredin.

4 Gweithdrefnau etholi Tribiwnlys Prasio Cymru

- 4.1 Dan reoliadau 11, 12 ac 13 o Reoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru 2010, mae'n rhaid i'r Tribiwnlys cynnal etholiadau ar gyfer ei Lywydd, ei Gadeiryddion a'i Gynrychiolwyr Rhanbarthol; ac mae'r weithdrefn ar gyfer yr etholiadau yma wedi ei osod allan men Atodlen 2 i'r Rheoliadau. Yn fyr, y weithdrefn ym mhob achos ydy i Brif Weithredwr y sefydliad rhoi'r isafswm o 56 dydd (8 wythnos) o rybudd o etholiad i'r aelodaeth; ac yn ystod y cyfnod yma dylai o leiaf y tair wythnos gyntaf bod ar agor er mwyn i aelodau medru enwebu ymgeiswyr, ac o leiaf y tair wythnos olaf bod ar agor er mwyn i aelodau pleidleisio.
- 4.2 Cyfnod arferol y swydd yn dilyn etholiad yw dwy flynedd mewn achosion y Llywydd a chynrychiolydd rhanbarthol, ac mewn achos cadeirydd nes bod tymor penodiad yr unigolyn fel aelod o'r Tribiwnlys yn dod i ben. Nid yw'r ffaith y gall aelod cael ei hailbenodi i'r Tribiwnlys am gyfnod newydd yn syth ar ôl y cyfnod blaenorol yn atal swydd y cadeirydd rhag esgeuluso. Wrth gwrs, gall cyn cadeirydd hefo aelodaeth sydd wedi cael ei hadnewyddu sefyll yn yr etholiad i ddod; ac mae nifer o gyn cadeiryddion yn y sefyllfa hon yn gwneud hyn - ac mae nifer ohonynt yn llwyddo i gael eu hail-ethol. Fodd bynnag, mae yna'n amlwg cyfnod o amser tra mae etholiad yn mynd ymlaen pryd mae swydd cadeirydd yn wag. Ar ben ei hun, nid yw hyn yn broblem, ond pryd mae cyfrannau o benodiadau/aillenodiadau (fel y manylir yn gynharach yn yr adroddiad hwn), efallai bydd yna nifer fawr o swyddi cadeirydd gwag, ac y gall hyn cael effaith andwyol ar drefniadau gwrandawiaidau'r tribiwnlys (ac y digwyddodd hynny eleni). Yn y gorffennol, dan reoliadau statudol blaenorol, roedd "cyn cadeiryddion" yn y sefyllfa yma yn gallu gwasanaethu am gyfnod dros dro, a oedd yn ddigon hir i etholiad cymryd lle. Byddai'n ddefnyddiol i'r Tribiwnlys i gael yr hen ddarpariaeth hon ei ailgyflwyno.
- 4.3 Fel y nodwyd uchod, mae'r Llywydd a chynrychiolydd rhanbarthol fel arfer yn cael eu hethol am gyfnod o ddwy flynedd, a byddai terfyn o gyfnod penodiad fel arfer yn syrthio o fewn cyfnod penodiad presennol aelod etholedig. Fodd bynnag, fel yr amlinellir uchod o ran cadeiryddion, mae swydd y Llywydd a chynrychiolwyr rhanbarthol yn gallu dod i ben (cyn diwedd y cyfnod o ddwy flynedd) os yw ei gyfnod fel aelod cyffredinol yn dod i ben, serch adnewyddiad dilynol a ddi-oed o aelodaeth gyffredin. Eto, mae bwlch yn y swyddi yma yn cael ei gyflwyno tra mae etholiad yn cymryd lle. Digwyddodd hyn o ran y Llywydd a tri chynrychiolydd rhanbarthol eleni. Ddarau hyn dileu cynrychiolaeth ar y Cyngor Llywodraethu, yn enwedig gan fod nifer o ddirprwy gynrychiolwyr rhanbarthol hefyd wedi eu heffeithio. Eto, gall cyfnod dros dro o dal swydd pryd mae etholiad yn mynd ymlaen yn yr achos hwn fod yn atodiad defnyddiol i'r drefn bresennol.
- 4.4 Fodd bynnag, mae yna agwedd arall o weithdrefnau etholiad oherwydd ar hyn o bryd maent yn sefyll am swyddi cynrychiolwyr rhanbarthol a dirprwy gynrychiolwyr rhanbarthol sy'n peri peth pryder i'r Tribiwnlys. Hwn yw'r ffaith y gall person sefyll am un o'r swyddi yma os ydynt yn gadeirydd yn barod. Fodd bynnag, mae aelod sydd wedi peidio â dal ei swydd fel cynrychiolydd rhanbarthol oherwydd terfyn ei dymor presennol fel aelod cyffredin o'r tribiwnlys hefyd wedi peidio â dal swydd y cadeirydd (fel y disgrifiwyd ym

mharagraff 4.2 uchod), er ei hadnewyddiad fel aelod cyffredin. Er mwyn gallu sefyll am y swydd o gynrychiolydd rhanbarthol, byddai'n rhaid iddynt gael ei hethol fel cadeirydd yn gyntaf. Pe bae'r broses o etholiad am gadeiryddion a chynrychiolwyr rhanbarthol yn cydreddeg, byddai'r cyn cynrychiolwyr rhanbarthol yn cael eu gwahardd o enwebiad (gan nad ydynt ar hyn o bryd yn gadeirydd [eto]), a hefyd byddai maes yr enwebedigion arfaethedig yn cael ei leihau. Felly mae'r Cyngor Llywodraethu wedi cymryd y farn, yn y sefyllfa disgrifiwyd ac a gafodd ei wynebu eleni, bod rhaid i etholiadau am swyddi cadeiryddion cymryd lle yn gyntaf, fel bod maes llawn o ymgeiswyr posibl ac fel bod deiliaid blaenorol ddim yn cael eu gwahardd rhag cael eu henwebu oherwydd pwynt technegol. Mae hyn yn ymestyn y cyfnod cyn mae rownd lwyddiannus o etholiadau cynrychiolwyr rhanbarthol yn gallu gorffen; ac felly'n gadael y Tribiwnlys gyda Chyngor Llywodraethu anghyflawn am gyfnod hirach.

- 4.5 O ganlyniad i amgylchiadau gwahanol mewn pob un o'r rhanbarthau (er enghraifft, pe bae etholiadau wedi eu cystadlu'n llawn neu yr oedd yna enwebai unig), mae'r prosesau ethol fel y'i gweithredir eleni wedi creu sefyllfa ble mae etholiadau Cynrychiolydd Rhanbarthol (Cyngor Llywodraethu) yn y dyfodol, ar ddiwedd cyfnodau o ddwy flynedd ei hun, i fod i gymryd lle ar nifer o ddyddiadau gwahanol (fel y manylir yn y tabl ym mharagraff 3.2 uchod). Yn weinyddol mi fydd hyn yn hynod o feichus ac yn ddefnydd aneffeithlon o amser y Prif Weithredwr.
- 4.6 I gloi, hoffai'r Tribiwnlys i'r Llywodraeth Gymraeg i edrych ar y prosesau ethol rhagnodedig a gwneud gwelliannau yng ngoleuni profiadau eleni.

5. Strwythur Staff Tribiwnlys Prasio Cymru

- 5.1 Mae gan bob un o'r pedwar rhanbarth Clerc Rhanbarthol, sy'n gyfrifol am gynllunio a rheoli'r gwaith apêl a gyfyd yn eu hardal ddaearyddol. Mae'r clercod yn goruchwyllo eu timau bychain o staff penodol, sy'n cynnwys Swyddogion Tribiwnlys Proffesiynol (staff wedi eu hyfforddi i gynghori aelodau ar y gyfraith a gweithdrefnau) a Staff Cymorth Gweinyddol. Mae hyn yn waddol o'r rhanbarthau yn dribiwnlysoedd annibynnol ar wahân yn y gorffennol. Mae'r trefniant yn gweithio'n dda ac mae aelodau unigol o staff ar bob level wedi cronni lefel uchel o wybodaeth leol arbenigol. Roedd rhai Swyddogion Tribiwnlys Proffesiynol, wedi eu dynodi fel swyddogion peripatetig, cyn dyfodiad Tribiwnlys Prasio Cymru (h.y. un tribiwnlys cenedlaethol) a oedd yn caniatáu'r tîm rheoli alw arnynt i wasanaethu mewn ardaloedd y tu hwnt i'w hardal arferol. Gallai hyn ddigwydd oherwydd absenoldeb salwch tymor hir staff neu gynnydd yn y llwyth gwaith mewn ardaloedd penodol. Nawr bod y sefydliad yn un tribiwnlys, gellid gofyn i bob un o'r Swyddogion Tribiwnlys Proffesiynol fynd i dribiwnlysoedd yn unrhyw leoliad yng Nghymru.
- 5.2 Uwchben y Clercod Rhanbarthol ceir swyddogaeth y Prif Weithredwr sydd hefyd yn cynnwys, dan reoliadau llywodraethu Tribiwnlys Prasio Cymru, safle statudol Clerc y Tribiwnlys. Mae'r Prif Weithredwr cyfredol wedi ei leoli gyda thîm rhanbarth y gogledd yn Adeiladau'r Llywodraeth yng Nghyffordd Llandudno. Serch hynny, nid yw' lleoli'r swydd yn y Gogledd yn ofyniad gweithrediadol. Gallai Prif Weithredwr yn y dyfodol weithio o unrhyw un o swyddfeydd y Tribiwnlys, yn dibynnu ar eu pellter o'u cartref. Lle bynnag y lleolir y Prif Weithredwr, disgwylir iddo/iddi ymweld â'r swyddfeydd eraill yn rhesymol aml - o leiaf unwaith y mis. Roedd y Prif Weithredwr presennol ar gytundeb cyfnod penodol tan ddiwedd mis Chwefror eleni. Mae'r cytundeb bellach wedi'i wneud yn barhaol.
- 5.3 Cefnogir y Prif Weithredwr gan Swyddog Cyllid/Cymhorthydd Personol, sy'n meddu ar gyfrifoldebau fel Swyddog Cymorth Gweinyddol yn Rhanbarth Dwyrain Cymru hefyd. Felly lleolir y swyddog yn swyddfa Casnewydd. Mae hwn yn drefniant gwaddol o ganlyniad i benodi'r Swyddog Cyllid/Cymhorthydd Personol presennol gan y Prif Weithredwr blaenorol, a leolwyd yng Nghasnewydd. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y swyddog yma i'r Prif Weithredwr yn cael eu hwyluso gan ddulliau telegyfathrebu modern ac adnoddau rhwydwaith y Tribiwnlys.
- 5.4 Mae staff o fewn y Tribiwnlys yn tueddu i fod yn sefydlog iawn, gyda phobl yn ymuno ac yn aros am nifer o flynyddoedd (llawer o flynyddoedd yn aml). Yn bresennol, yr hyd gyfartalog o wasanaeth yw 16 blynedd; ac mae bron i hanner y gweithwyr wedi gwasanaethu am dros 20 blynedd. Ni phenodwyd unrhyw staff newydd eleni a gadawodd un aelod o staff (ymddeoliad o swyddog cymorth gweinyddol ar ddiwedd mis Rhagfyr ar ôl 25 mlynedd o wasanaeth).
- 5.5 Fel yr adroddwyd llynedd, penodwyd tri Swyddog Tribiwnlys Proffesiynol ym mis Mehefin 2013 ar gytundeb cyfnod penodol sydd i fod i derfynu ar ddiwedd

blwyddyn yr adroddiad hwn. Mae'r cytundebau yma bellach wedi'u wneud yn barhaol.

- 5.6 Mae staff newydd yn cael eu cofrestru'n awtomatig yng Nghronfa Dyfed y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, dewis o gronfa'r Tribiwnlys ar hyn o bryd. Serch hynny, am resymau hanesyddol, mae gan y Tribiwnlys staff gydag aelodaeth mewn pedair cronfa wahanol (Clwyd, Dyfed, Torfaen ac RCT). Gallai'r Tribiwnlys ystyried cyfuno'r aelodaeth mewn un gronfa yn y dyfodol, os yw hyn yn hyfyw yn economaidd. Fodd bynnag, gallai'r costau trosglwyddo fod yn waharddol.
- 5.7 Roedd y staff trwy gydol y cyfnod yn cyfateb i 20.75 o weithwyr llawn amser. Roeddent yn cyflawni'r swyddogaethau isod:
- Prif Weithredwr
 - 4 Clerc Rhanbarthol
 - 10 Swyddog Tribiwnlys Proffesiynol
 - 1 Swyddog Cyllid/Cymhorthydd Personol
 - 4.75 Swyddog Cymorth Gweinyddol
- 5.8 Yn ychwanegol at y staff cyflogedig uchod, penododd y Tribiwnlys gynghorydd ymgynghorol Adnoddau Dynol annibynnol i ddarparu cyfleuster llinell gymorth Adnoddau Dynol 24-awr trwy gydol y flwyddyn a phedwar ymweliad undydd i swyddfeydd neu sesiynau hyfforddiant.
- 5.9 Mae 30% o'r gweithwyr yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae gan bob swyddfa o leiaf dau aelod o staff sy'n hollol rugl yn y Gymraeg. Mae gan eraill lefelau hyfedredd amrywiol. Rhoddir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r holl staff eleni. Mae'r hyfforddiant yma wedi cynyddu'r niferoedd sy'n astudio'r Gymraeg (rhywbeth mae'r Tribiwnlys yn hyrwyddo a chefnogi yn weithredol).

6. Aelodaeth Tribiwnlys Prasio Cymru

6.1 Penderfynir ar nifer aelodau'r Tribiwnlys gan reoliadau statudol ac fe'i nodir o ran nifer yr aelodau y gellir eu penodi yng nghyswllt pob ardal awdurdod lleol drwy Gymru. Gwneir y penodiadau ymhob ardal gan baneli penodi ar y cyd, sy'n cynnwys cynrychiolydd neu gynrychiolwyr y cyngor yn yr ardal dan sylw a Llywydd Tribiwnlys Prasio Cymru neu, os awdurdodir gan y Llywydd, Gynrychiolydd Rhanbarthol perthnasol Cyngor Llywodraethau'r Tribiwnlys Prasio. Gall cyfnod y penodiadau fod am unrhyw gyfnod hyd at uchafswm o chwe blynedd. Yn ymarferol, mabwysiadir chwe blynedd yn gyffredin a dyna yw'r norm. Yn gyffredinol, mae paneli penodi yn cyfarfod unwaith bob dwy flynedd ac yn ymdrin â phenodi traean y nifer a ddynodwyd ar gyfer yr ardal dan sylw. Gellir cynnal paneli penodi ad hoc ar unrhyw adeg i ymdrin ag unrhyw amrywiad sylweddol mewn aelodaeth ynghanol y cyfnod, ond mae hyn yn anarferol. Mae'r amrywiad mewn aelodaeth fel arfer o ganlyniad i farwolaethau neu ymddiswyddiadau. Mae'r ddau beth yn tueddu i fod yn ddigwyddiadau achlysurol, ac felly mae'r lefelau aelodaeth yn tueddu i fod yn sefydlog dros gyfnodau amser cymharol hir. Ar ddiwedd cyfnod penodiad gellir ailbenodi'r aelod. Nid oes uchafswm oedran aelodaeth. Mae nifer o'r aelodau cyfredol wedi eu hailbenodi sawl gwaith yn ystod eu gyrfa gyda'r Tribiwnlys a'r cyrff a'i rhagflaenodd, ac felly maent yn meddu ar lawer o brofiad wrth ymdrin ag apeliadau trethu lleol.

6.2 Niferoedd y Rhanbarthau trwy gydol blwyddyn yr adroddiad oedd:

Rhanbarth	Isafswm	Uchafswm
Dwyrain Cymru	48	60
Gogledd Cymru	46	57
De Cymru	48	62
Gorllewin Cymru	44	57

6.3 Ar hyn o bryd mae'r Tribiwnlys yn cadw ei niferoedd tuag at isafswm yr amrediad, gan fod niferoedd yr achosion apêl yn dangos dirywiad, yn benodol oherwydd yr estyniad o ddwy flynedd o'r rhestr ardrethi cyfredol. Hefyd mae nifer yr apeliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor dal i fod yn isel (hon yw Blwyddyn 2). Er bod y rhain yn debygol o gynyddu yn y dyfodol, rydym yn rhagweld bydd y niferoedd yn aros yn cymharol fach (efallai yn unol ag apeliadau atebolrwydd y Dreth Gyngor). Felly, rydym yn ymateb yn araf i unrhyw swyddi aelodaeth gwag sy'n codi, gan yn weithredol mae'r isafswm yn fwy na digonol ar gyfer y llwyth gwaith presennol. (Ar ddiwedd y cyfnod roedd gennym naw swydd wag.) Gellir darganfod dosbarthiad yr aelodaeth gyfredol ar draws y rhanbarthau o'r ffigyrau a gyflwynir yn Atodiad A.

6.4 Lllynedd cyflwynwyd cynllun arfarnu aelodau. Mae'r cynllun wedi parhau eleni. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi'i rwystro gan y lleihad ym maint y gwaith (sy'n cael ei esbonio yn y paragraff uchod). Mae'r lleihad yma ym maint y gwaith wedi arwain at lai o gyfarfodydd tribiwnlys yn cael eu trefnu, ac o ganlyniad yn lleihau'r posibilrwydd o gwmpasu cyfran fawr o'r aelodaeth. Yn ogystal â hyn, mae rhai arfarniadau wedi cael eu dileu ar y funud olaf pan

mae partiön wedi dod i gytundeb, yn osgoi'r angen am wrandawriad tribiwnlys. Mae'r cynllun arfarnu cyfan wedi'i seilio ar arsylwi gwrandawriad ar waith. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn parhau i fod yn ei le ac yn cael ei ddilyn yn weithredol mor gorau ag sy'n bosib yn yr amgylchiadau presennol. Mae'n dal i fod yn ddyddiau cynnar - h.y. llai na ddwy flwyddyn ar ôl gweithredu; ac mae'r Tribiwnlys dal i ddysgu o'r profiad. Mae cwestiynau yn cael eu codi yn awr ynglŷn â sut mae canfyddiadau arfarniadau unigol yn gallu llywio penderfyniadau ar anghenion hyfforddiant aelod a'i ddyfodol fel aelod. Mae hyn o ganlyniad i natur gyfrinachol, ar gau'r broses ar y funud, sydd ddim yn caniatáu'r trosglwyddiad o wybodaeth allweddol i rai rhannau o'r sefydliad sy'n gwneud penderfyniadau. Bydd y Cyngor Llywodraethu yn archwilio'r cwestiynau yma yn ei dro. Fodd bynnag, am y tro, mae'r system yn ymsefydlu'n raddol i mewn i ddiwylliant y sefydliad; ac yn ei dro mae'n debyg y bydd yn cael ei ddatblygu'n bellach.

- 6.5 Mae dwyieithrwydd Saesneg-Cymraeg yn parhau i fod yn un chwarter o'r holl aelodaeth. Gan y gellir nodi'r angen am wrandawriad Cymraeg nifer o wythnosau cyn y digwyddiad, nid yw'r Tribiwnlys yn dod ar draws unrhyw anawsterau wrth ddarparu hyn i bartiön sydd yn dymuno symud ymlaen yn y ffordd hon.

7. Hyfforddiant a Datblygiad

- 7.1 Mae gan y Tribiwnlys Prisio hanes cadarn o ddarparu hyfforddiant rheolaidd a phwrpasol i'w staff a'i aelodau fel ei gilydd, fel y cofnodwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Nid oedd unrhyw beth yn wahanol eleni. Trefnodd y Pwyllgor Hyfforddiant raglen lawn ac amrywiol ar gyfer y flwyddyn. Cynhaliwyd gwariant ar yr un lefel a'r flwyddyn ariannol flaenorol, a oedd yn gynnydd ar flynyddoedd ariannol blaenorol.
- 7.2 Nodwedd bwysig eleni oedd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer staff ac aelodau. Yn wir, mae ymagwedd y tribiwnlys i hyn a'i hawydd i ddatblygu diwylliant calonogol a chefnogol ar gyfer caffael yr iaith Gymraeg a'i ddefnydd ymysg ei staff wedi ei nodi yn thesis doethurrol ein hyfforddwr allanol (gwelir www.iaith.cymru/en/news/dr-steve-eaves-gains-welsh-cap a <http://orca.cf.ac.uk/73554/>). Erbyn diwedd cyfnod yr adroddiad, gwnaethpwyd pob aelod o staff rhywfaint o hyfforddiant gwirfoddol Cymraeg, gan gynnwys cwrs rhagarweiniol mewnol yn ein swyddfa yng Nghasnewydd ar gyfer dysgwyr newydd - gyda thiwtor o Goleg Gwent yn mynychu am hanner ddiwrnod yr wythnos am nifer o wythnosau. Mae'r Tribiwnlys yn cefnogi tri aelod o staff arall (gan gynnwys y Prif Weithredwr) sy'n astudio'r iaith Gymraeg ar lefelau ychydig yn uwch.
- 7.3 Mae'r tribiwnlys yn cydnabod cymhwyster yr IRRV (Institute of Revenues Rating and Valuation) ac yn annog a chefnogi yn ariannol staff sy'n astudio'n ffurfiol. Mae tri Swyddog Tribiwnlys Proffesiynol wedi cael y cymhwyster Tech IRRV eleni, gan gynnwys dau Swyddog Tribiwnlys Proffesiynol a benodwyd ym mis Mehefin 2013. Mae un swyddog cymorth gweinyddol yn ymgymryd astudiaethau Tech IRRV ar hyn o bryd.
- 7.4 Mae dau swyddog cymorth gweinyddol yn dilyn hyfforddiant NVQ level 3 mewn pynciau cysylltiedig â rheolaeth weinyddol.
- 7.5 Ym mis Gorffennaf 2014, cyflwynwyd polisi hyfforddiant ffurfiol ar gyfer aelodau'r tribiwnlys am y tro cyntaf. Mae'r polisi yma yn gwneud rhai digwyddiadau blynyddol yn orfodol. Bydd methiant i fynychu'r digwyddiadau hyn yn fel arfer yn arwain at aelod yn cael ei wahardd rhag mynychu tan mae o/hi wedi cyflawni'r gyfres nesaf o hyfforddiant gofynnol. Fodd bynnag mae gan y Llywydd rhyddid i fynd tu hwnt i'r gwaharddiad os yw'r aelod yn gwneud cais ysgrifenedig ac yn gallu dangos rheswm da dros beidio â mynychu. Nid yw'r Tribiwnlys wedi cyflawni'r cylchred blynyddol cyntaf o hyfforddiant sy'n ddarostyngedig i'r polisi newydd yma. Bydd ei heffaith yn cael ei gofnodi yn adroddiad blynyddol blwyddyn nesaf.

8. Llwyrth Gwaith

- 8.1 Mae awdurdodaeth y Tribiwnlys yn cwmpasu ystod o wahanol fathau o apeliadau. Yn bennaf, y rhain yw apeliadau Rheoliadau Ardrethu Annomestig, apeliadau Rhestr Brisio'r Dreth Gyngor, ac apeliadau atebolrwydd y Dreth Gyngor. Apeliadau a dderbynnir yn achlysurol yw apeliadau Hysbysiad Cosb, apeliadau Hysbysiad Cwblhau ac apeliadau Ardrethi Draenio. Yn ogystal â'r llwyrth gwaith apeliadau, mae'r Tribiwnlys yn ymdrin â cheisiadau i adolygu penderfyniadau mewn amrediad o achosion lle bo un parti yn anfodlon â'r canlyniad.
- 8.2 O ran y niferoedd, mae mwyafrif yr apeliadau ym maes ardrethu annomestig gyda phrisio'r dreth gyngor yn ail. Yn ystod y flwyddyn hon deliodd y Tribiwnlys ag apeliadau ynghylch cofnodion yn rhestr ardrethu 2005 a 2010 a rhestr brisio 2005. Lluniwyd a chynhelir y rhestr hyn gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae ymdrin â materion yn deillio o restr ardrethu 2005 yn cyrraedd diwedd ei gyfnod yn awr, a gostyngodd nifer yr achosion o 200 ar ddechrau'r flwyddyn i 93 ar ddiwedd y flwyddyn. O ran diwedd cyfnod gwaredu apeliadau ardrethu, yn aml geir rhai achosion cymhleth ac anodd, sy'n galw am drafodaethau sylweddol rhwng y partïon cyn y gellir rhestru'r materion i'w gwrandao gan dribiwnlys, ac mae'n parhau'n weddill. Felly gallai rhai o'r achosion olaf yma yn deillio o restr 2005 fod o gwmpas am gryn amser i ddod, ond nod y Tribiwnlys yw ymdrin â hanner (neu fwy) ohonynt yng nghyfnod y 12 mis nesaf. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith apeliadau ardrethu yn y cyfnod yn ymwneud â rhestr 2010 - gydag ychydig o dan 4400 yn weddill ar ddechrau'r cyfnod a 4200 arall wedi eu hychwanegu at y nifer yma yn ystod y flwyddyn. Ymdriniwyd â dros 6000 yn ystod y flwyddyn, gyda thua 2500 yn weddill ar ddiwedd y cyfnod. (Dangosir niferoedd manwl yr apeliadau ardrethu yn y tabl yn Atodiad A-1.)
- 8.3 Mae niferoedd yr apeliadau Prasio'r Dreth Gyngor yn llawer is na materion annomestig. Ar ddechrau'r cyfnod roedd bron 700 yn weddill; a derbyniwyd 1700 apeliadau yn ystod y flwyddyn. Roedd y nifer a gliriwyd bron i 1800 ar ddiwedd y cyfnod - gan adael bron i 600 i'w cario trosodd. Fodd bynnag, mae cyfraddau ymddangos yn y tribiwnlys yn uwch yn gyffredinol ar gyfer apeliadau Prasio'r Dreth Gyngor, fel cyfran o'r nifer a dderbynnir, o'i gymharu ag apeliadau Ardrethu Annomestig. Yn unol â hyn, er gwaethaf niferoedd is, maent yn cyfrif am gyfran arwyddocaol o lwyth gwaith gwrandawiadau a phenderfyniadau'r Tribiwnlys. Mae hyn oherwydd bod mwyafrif yr achosion treth gyngor yn cael eu cyflwyno gan dreth dalwyr heb gynrychiolaeth, sy'n aml yn llai parod i drafod a datrys eu hachos â chynrychiolydd o Asiantaeth y Swyddfa Brisio na swyddog eiddo proffesiynol o ran materion ardrethu. Fel dangosydd cyffredinol, mae 23% o achosion prasio'r dreth gyngor yn cael eu penderfynu, o gymharu â 15% o apeliadau ardrethu annomestig. (Niferoedd llynedd oedd 24% treth gyngor a 15% ardrethu.)
- 8.4 Mae nifer yr achosion Atebolrwydd y Dreth Gyngor (sy'n cynnwys apeliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ychwanegwyd at ein hawdurdodaeth dwy flynedd yn ôl) yn llawer is na'r ddau fath o achosion prasio y cyfeiriwyd atynt yn y paragraffau uchod. Serch hynny, mae'r rhain yn tueddu bod yn

faterion llawer mwy dadleuol, yn aml wedi eu cofrestru gan apelydd heb gynrychiolaeth. Penderfynodd y Tribiwnlys ar 78% o'r achosion a gliriwyd yn ystod y flwyddyn (80% llynedd). Serch hynny, roedd dim ond 8% o'r achosion a benderfynwyd yn hawliadau llwyddiannus (o'i gymharu â 27% llynedd). Nid oedd unrhyw hawliadau Gostyngiadau Dreth Gyngor. (Dangosir niferoedd manwl apeliadau Atebolrwydd y Dreth Gyngor, ynghyd â'r apeliadau am adolygiad o benderfyniad a'r mân apeliadau eraill a grybwyllwyd ym mharagraff 8.1 yn Atodiad B-2.)

- 8.5 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, prin iawn oedd yr achosion aeth â'u hapêl i lefel uwch. Cyflwynwyd cyfanswm o ddau achos ardrethu annomestig i'r Siambr Tiroedd, ond cafwyd eu cytuno gan orchymyn cydsynio yn ddiweddarach. Nid oedd unrhyw atgyfeiriadau i'r Uchel Lys yn ystod y flwyddyn o ran apeliadau Atebolrwydd y Dreth Gyngor.

9. Cwynion

- 9.1 Mae gan Dribiwnlys Prisio Cymru drefn gwynion ffurfiol. Dan y drefn hon mae materion sy'n peri anfodlonrwydd nad ydynt yn cael eu datrys ar unwaith, neu'n fuan ar ôl tynnu sylw gweinyddiaeth y sefydliad atynt, yn cael eu cyfeirio at y Prif Weithredwr. Ni throsglwyddwyd unrhyw gwynion i lefel y Prif Weithredwr eleni.
- 9.2 Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion am y Tribiwnlys i Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn hon.

10. Ystâd Tribiwnlys Prasio Cymru

10.1 Lleolir swyddfeydd gweinyddol pedwar rhanbarth Tribiwnlys Prasio Cymru mewn tri lleoliad strategol yng Nghymru.

Lleolir *swyddfeydd gweinyddol Dwyrain a De Cymru* yn 22 Gold Tops, Casnewydd. Mae'r adeilad hwn yn cael ei brydlesu gan landlord preifat. Terfynwyd prydles y ddeng mlynedd ddiweddaraf ym mis Hydref 2014 ac mae ei hadnewyddiad dal i fod dan drafodaeth - er cytunwyd rhent is newydd (gostyngiad o 20%). Y rheswm am yr oedi wrth ffurfioli'r brydles yw ei fod yn cael ei gytuno yn uniongyrchol gyda'r Tribiwnlys fel daliwr prydles. Cafwyd y brydles flaenorol ei gytuno gyda Gweinidogion Cymreig fel daliwr prydles. Cafwyd y brydles flaenorol hon ei gytuno cyn dechrau Tribiwnlys Prasio Cymru fel un corff ar gyfer Cymru gyfan, ac fe'i hystyrir ar y pryd nid oedd y tribiwnlys yn ei ffurf bresennol amser hynny yn dal pwerau dal tir. Bellach, cadarnhawyd rhwng y Llywodraeth Gymraeg a'r Tribiwnlys gall a ddylai Tribiwnlys Prasio Cymru cael ei hystâd ei hun fel corff hyd fraich a noddir gan y llywodraeth. Mae gan yr adeilad ystafell ardderchog ar gyfer gwrandawiadau'r tribiwnlys a digwyddiadau bach gweinyddol a hyfforddiant.

Lleolir *Swyddfa Weinyddol Gogledd Cymru* yn rhan o swyddfa cynllun agored yn Adeiladau Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Defnyddir y swyddfeydd dan gytundeb Memorandwm Telerau Meddiant. Fel adeilad cyhoeddus newydd, mae'r eiddo yn cydymffurfio â'r holl safonau hygyrchedd a diogelwch diweddaraf. Ar y pryd, nid yw'r Tribiwnlys yn cynnal gwrandawiadau tribiwnlys yn yr adeilad oherwydd cyfyngiadau gweithrediadol (h.y. ni ellir gwarantu llogi ystafell digon buan ymlaen llaw, gan allai'r ystafelloedd gael eu hadfeddiannu at ddefnydd Gweinidogion), ond cynhelir rhai cyfarfodydd eraill (staff, aelodau a hyfforddiant) yn achlysurol.

Lleolir *Swyddfa Weinyddol Gorllewin Cymru* mewn ardal hunangynhwysol, ar wahân, ar safle Adeiladau'r Llywodraeth ym Mhenllergaer, ar gyrion Abertawe. Defnyddir y swyddfeydd dan gytundeb Memorandwm Telerau Meddiant. Mae'r rhanbarth yn medru defnyddio ystafelloedd addas yn yr adeilad ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlys, ac mae'n cynnal cyfarfodydd yno.

10.2 Darperir gwaith cynnal a chadw cynlluniedig ac ataliol yr adeiladau yng Nghyffordd Llandudno a Phenllergaer gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cytundebau Memorandwm Telerau Meddiant. O ran swyddfeydd Casnewydd, mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn cyflogi cwmni cenedlaethol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

10.3 Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn llogi ystafelloedd mewn lleoliadau niferus er mwyn cynnal ei swyddogaethau barnwrol. Mae'n rhaid cynnal gwrandawiadau mewn lleoliadau cyfleus ac mewn eiddo addas. Y prif elfennau a ystyrir wrth chwilio am adeiladau addas ar gyfer ystafelloedd gwrandawiadau tribiwnlys yw:

- hygyrchedd rhwydd yn cynnwys cyfleusterau parcio ceir;
- dangos annibyniaeth briodol oddi wrth y cyrff sy'n cael eu penderfyniad wedi'i hapelio;
- cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a darpariaethau Iechyd a Diogelwch;
- bodloni disgwyliadau defnyddwyr; a
- darparu gwerth am arian.

10.4 Mae'r Tribiwnlys yn parhau i ddefnyddio peth eiddo modern awdurdodau lleol, o dro i dro, gan fod yr adeiladau hyn yn darparu lleoliadau o ansawdd da, diogel, hygyrch a gwerth am arian. Fodd bynnag, gan fod yr apeliadau sy'n cael eu hystyried yn deillio o faterion ardrethu lleol, nid yw defnyddio'r lleoliadau hyn yn ddelfrydol - gellid ei ddirnad fel cyfaddawdu annibyniaeth y Tribiwnlys. Mae'r Tribiwnlys yn ymwybodol o hyn ac felly, pan ddefnyddir y lleoliadau hyn, eglurir y gwahaniaeth rhwng y Tribiwnlys a'r awdurdod lleol dan sylw yn fanwl i'r rhai sy'n bresennol yn y gwrandawriad. Mae'r Tribiwnlys wedi ymrwymo i symud oddi wrth ddefnyddio adeiladau awdurdod lleol cyn belled ag sy'n bosibl, wrth barhau i ddarparu lleoliadau ansawdd uchel, diogel a hygyrch.

11. Technoleg Gwybodaeth


- 11.1 Adnewyddodd Tribiwnlys Prasio Cymru ei offer cyfrifiadurol pen desg a meddalwedd Office ar ddechrau'r flwyddyn. Hon yw'r adnewyddiad cyntaf o ddarpariaeth gweithfan ers 2008. Serch hynny, mae'r gweithfannau yma dal i fod yn gysylltiedig â chronfa ddata ganolog a ddatblygwyd yn 1998/99 yn bennaf gan gyfatebwr y Tribiwnlys yn Lloegr (y Gwasanaeth Tribiwnlys Prasio) ar y cyd ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Nid yw'n bosib mynd ar y rhyngwrdd ar y gweithfannau, ar sail ystyriaethau diogelwch yn dyddio o'r adeg honno a'r posibilrwydd technegol (ond annhebygol) y gall gweithfan Tribiwnlys Prasio Cymru dan fygythiad (wedi ei hacio) darparu ffordd i wybodaeth dreth gyfrinachol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) -- gan fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn asiantaeth weithredol o CThEM. Serch hynny, mae e-bost ar y gweithfannau trwy rwydwaith Mewnrwyd Ddiogel y Llywodraeth.
- 11.2 Er bod caledwedd y gweithfannau yn newydd, mae'r trefniadau cronfa ddata a chysylltedd wedi dyddio. Felly, mae Tribiwnlys Prasio Cymru wedi trafod gyda'r Gwasanaeth Tribiwnlys Prasio ynglŷn â dyfodol ein partneriaeth ar gronfa ddata canolog DU. Yn ystod y trafodaethau nodwyd bod y ddeddfwriaeth sy'n sail gwaith y ddau sefydliad yn ymwahanu ac o ganlyniad i hyn, nid oedd partneriaeth barhaus yn ddewis hyfyw. Roedd pob sefydliad yn awyddus i ddihatru ei hun o'r trefniant presennol sy'n gysylltiedig ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio (a CThEM), ond gytunwyd y ddau nes bod y ddau ohonynt wedi datblygu systemau eu hun, bydd rhaid i ni barhau i ddefnyddio'r hen drefniadau presennol yn y tymor byr. Cytunwyd targed ar gyfer ddechreuad systemau newydd, sef 1 Ebrill 2017 - a fyddai'n cyd-fynd â dechrau'r rhestr ardrethu nesaf ym mhob gwlad. Fodd bynnag, hyd yn oed ar y pwynt hwnnw, efallai bydd angen i barhau gyda'r system bresennol am gyfnod o amser er mwyn delio gyda'r apeliadau sy'n weddill ac wedi eu cofrestru arno.
- 11.3 Felly, mae Tribiwnlys Prasio Cymru wedi gwneud rhywfaint o waith cefndirol cychwynnol ar gyfer datblygiad system apelio annibynnol newydd. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant tîm bychan o staff mewn defnydd cronfa ddata MS Access; dadansoddiad o'n gofynion; mapio strwythur tabl cronfa ddata; ac ymchwiliadau i mewn i'r posibilrwydd o ddefnyddio Rhwydwaith Byd-eang y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (un o fentrau Llywodraeth Cymru). Ein bwriad yw datblygu system prototeip gweithredol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2015/16.
- 11.4 Tuag at ddiwedd cyfnod yr adroddiad presennol buddsoddwyd y Tribiwnlys mewn tabledi iPad ar gyfer Clerc y Tribiwnlys a'r 13 aelod o staff sy'n cymryd rhan mewn tribiwnlysoedd. Llwythwyd y tabledi yma gyda chopïau PDF o statudau perthnasol, rheoliadau statudol a chyfeirlyfrau, er mwyn gwella mynediad i'r deunyddiau hyn mewn lleoliadau gwrandawiadau allanol y tribiwnlys ac yn ein fforymau ymarferwyr chwarterol.
- 11.5 Mae ein gwefan dal i weithredu yn annibynnol o ein trefniadau partneriaeth gyda Gwasanaeth Tribiwnlys Prasio Lloegr. Mae'r cynnwys wedi bod yn sefydlog trwy gydol y flwyddyn yn dilyn ailwampio mawr ychydig cyn cychwyn y cyfnod. Yn anffodus nid ydym wedi llwyddo i gasglu ystadegau ar

ymweliadau i a defnydd y wefan eleni, er nifer o geisiadau i ddatblygwr y wefan a gontractiwyd gan Dribiwnlys Priso Cymru. Mi fydd dadansoddiad ystadegol ar gael yn 2014/15.

- 11.6 Fel rhan o ymdrechion y Tribiwnlys i fod yn sefydliad sy'n *ymwybodol o ac yn hyrwyddo'r Gymraeg*, gosodwyd y meddalwedd geiriaduron a gwirio sillafu a gramadeg a gynhyrchwyd gan Brifysgol Bangor a elwir yn Cysgliad ei osod ar holl gyfrifiaduron pen desg Tribiwnlys Priso Cymru eleni, ac nid cyfrifiaduron y siaradwyr Cymraeg yn unig. Mae hyn yn caniatáu i'r defnyddwyr hyn symud o un peiriant i un arall heb gyfaddawdu'r meddalwedd sydd ar gael iddynt. Mae ei bresenoldeb hefyd yn hybu chwilfrydedd a defnydd ar raddfa fechan ymhlith defnyddwyr eraill sy'n meddu ar beth sgiliau Cymraeg; ac yn dangos i bob aelod o staff ymrwymiad y sefydliad i fod yn sefydliad rhagweithiol sy'n gwella o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg.


12. Adnoddau Ariannol Tribiwnlys Prasio Cymru

- 12.1 Cyllideb y tribiwnlys am y flwyddyn oedd £1.254M. Roedd hyn yn cynrychioli gostyngiad arwyddocaol ar gyllideb y flwyddyn flaenorol o £1.43M. Yn ogystal â chynnwys gostyngiad canrannol bychan i gyllideb waelodlin y Tribiwnlys, yn unol â holl adrannau a chyrrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, roedd y gostyngiad hefyd yn cynnwys cael gwared ar yr elfen a gytunwyd yn flaenorol er mwyn delio hefo apeliadau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ym mlwyddyn 2 o'u cyflwyno i awdurdod y Tribiwnlys. Mae hyn oherwydd, ar dystiolaeth blwyddyn 2, yr oedd yn debyg y byddai niferoedd yr apeliadau yn isel iawn. (A phrofwyd hyn yn wir).
- 12.2 Yr alldro gwariant am y flwyddyn oedd £1,249,500 (dim ond £4,500 yn fyr o'r gyllideb ac yn cynrychioli gwariant o 99.6%). Dangosir ffigyrau manwl yn ôl penawdau cyllideb y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru yn Atodiad C. Dangosir dosbarthiad y gwir wariant yn ôl canran yn y siart isod. Mae'n dangos defnyddiwyd dau draean o holl wariant (ac o ganlyniad o gyllideb, gan ddefnyddiwyd bron 100%) i dalu costau staffio. O ystyried y ganran uchel sydd ei angen i dalu am gostau staff a'r trosiant isel o staff disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad yma, byddai'n anodd iawn i ddioddef gostyngiadau parhaol i'r gyllideb gyffredinol. Mae hyn oherwydd bydd angen dod o hyd i'r arbedion sy'n ofynnol gan doriadau mewn traean o'r gyllideb os nad ydym am golli staff. Mae hyn yn cynhyrchu effaith geriad i'r gostyngiadau. Mae gostyngiad o 2.5% i'r gyllideb gyffredinol yn dod yn tair gwaith yn fwy fel canran o'r maes cyllid ble mae'n bosib dod o hyd i'r arbedion.



- 12.3 Wrth edrych ar y traean o'r gyllideb/gwariant sydd ddim wedi ymrwymo i gostau staffio, mae'r dadansoddiad canlynol yn digwydd:

**Canrannau Gwariant
Tribiwnlys Priso Cymru - 2014-15
(gwariant nad yw'n staffio)**



12.4 Mae'n glir bod swyddfeydd a chyfrifiadureg yn cynnwys bron i hanner o'r gwariant hwn. O fewn y meysydd yna, mae cyfran fawr o'r gwariant wedi'i ymrwymo blwyddyn ar ôl flwyddyn ar gontractau tymor hir, h.y. brydles y swyddfeydd a chytundebau Memorandwm Telerau Meddiant, a'r bartneriaeth technoleg gwybodaeth gyda'r Gwasanaeth Tribiwnlys Priso/Asiantaeth y Swyddfa Priso; ac felly yn sefydlog. Fel y manylir yn gynharach mae arbediad o 20% wedi ei gytuno yn ddiweddar ar brydles Casnewydd, a fydd yn helpu gyda chwrdd â gofynion y gostyngiad cyffredinol i waelodlin y gyllideb blwyddyn nesaf (2015/16); ond mae'r meysydd ar gyfer arbedion sylweddol yn y dyfodol yn nesáu at bwynt (os nad ydynt wedi ei gyrraedd yn barod) ble maent yn ddisbyddedig. Byddai unrhyw leihad mewn gwariant yn y meysydd yna yn cyfaddawdu'r hyn mae'r Tribiwnlys yn ei wneud ac yn gallu gwneud.

Dadansoddiad o oed a chenedl yr aelodaeth (fel ar 31 Mawrth 2015)

Oed	Dan 30		30-39		40-49		50-59		60-69		70-79		Dros 80		Cyfanswm	
	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B
Gogledd	0	0	0	0	0	1	4	1	7	6	12	5	1	0	24	13
Dwyrain	0	0	1	0	2	2	1	2	10	7	9	6	2	0	25	17
De	0	0	1	0	2	1	4	2	15	2	12	4	4	1	38	10
Gorllewin	0	0	0	0	0	1	5	2	10	3	16	6	3	0	34	12
Cyfanswm	0	0	2	0	4	5	14	7	42	18	49	21	10	1	121	52
Canran o gyfanswm yr aelodaeth	0%		1.1%		5.2%		12.1%		34.7%		40.5%		6.4%		100%	

Nodiadau

- 1 Ar hyn o bryd, mae naw swydd wag (mae lleiafswm cyflawnder wedi ei osod ar 182; ond mae hyn yn ormodol ar gyfer y nifer o apeliadau sy'n cael eu cofrestru gyda'r tribiwnlys)
- 2 Cyfanswm nifer yr aelodau sy'n gwasanaethu aelodau cyngor awdurdod lleol yw 30. Mae hyn yn sylweddol is na'r gyfran uchaf a ganiateir gan reoliadau llywodraethol statudol y tribiwnlys (sy'n nodi uchafswm o draean o'r cyfanswm).

Atodiad B-1

Data Clirio Apeliadau 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015

Math o Apêl		Apeliadau Priso'r Dreth Gyngor		Rhestr Ardrethu Annomestig 2005		Rhestr Ardrethu Annomestig 2010		Amrywiol (e.e. Atebolrwydd/Cosbau)*		Pob Apêl	
	Rhanbarth		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm
Dygwyd ymlaen	Dwyrain	81	682	80	200	1094	4372	3	49	1258	5303
	Gogledd	172		19		1099		1		1291	
	De	153		35		1254		37		1479	
	Gorllewin	276		66		925		8		1275	
Derbyniwyd	Dwyrain	344	1700	0	0	1151	4198	13	97	1508	5995
	Gogledd	455		0		882		11		1348	
	De	368		0		1108		43		1519	
	Gorllewin	533		0		1057		30		1620	
Datryswyd	Dwyrain	275	1398	57	96	1332	5136	4	22	1668	6652
	Gogledd	385		3		1233		1		1622	
	De	221		16		1423		13		1673	
	Gorllewin	517		20		1148		4		1689	
Penderfynwyd	Dwyrain	43	416	1	11	213	928	6	78	263	1433
	Gogledd	143		2		206		7		358	
	De	119		1		281		45		446	
	Gorllewin	111		7		228		20		366	
Caniatawyd	Dwyrain	10	85	0	2	8	91	0	6	18	184
	Gogledd	53		0		14		4		71	
	De	18		1		42		1		62	
	Gorllewin	4		1		27		1		33	
Cariwyd Ymlaen	Dwyrain	107	568	22	93	700	2506	6	46	835	3213
	Gogledd	99		14		542		4		659	
	De	181		18		658		22		879	
	Gorllewin	181		39		606		14		840	

* Dangoswyd dadansoddiad o Apeliadau Amrywiol drosodd

Data Clirio Apeliadau 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015 - Dadansoddiad o Fathau Amrywiol

Math o Apêl		Atebolrwydd y Dreth Gyngor		Hysbysiad Cwblhau		Hysbysiad Cosbau		Cais i Adolygu Penderfyniad		Gostyngiadau'r Dreth Gyngor		Pob Un	
	Tribiwnlys		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm
Dygwyd ymlaen	Dwyrain	1		0		0		0		2		3	
	Gogledd	0		1		0		0		0		1	
	De	36		1		0		0		0		37	
	Gorllewin	3	40	0	2	0	0	0	0	5	7	8	49
Derbyniwyd	Dwyrain	6		2		0		1		4		13	
	Gogledd	2		0		0		6		3		11	
	De	9		17		0		5		12		43	
	Gorllewin	10	27	0	19	0	0	0	12	20	39	30	97
Datryswyd	Dwyrain	0		1		0		0		3		4	
	Gogledd	0		1		0		0		0		1	
	De	4		3		0		0		6		13	
	Gorllewin	0	4	0	5	0	0	0	0	4	13	4	22
Penderfynwyd* (yn cynnwys trwylinellu yn GDG)	Dwyrain	4		1		0		1		0		6	
	Gogledd	0		0		0		6		1		7	
	De	36		0		0		5		4		45	
	Gorllewin	7	47	0	1	0	0	0	12	13	18	20	78
*Caniatawyd	Dwyrain	0		0		0		0		0		0	
	Gogledd	0		0		0		4		0		4	
	De	0		0		0		1		0		1	
	Gorllewin	1	1	0	0	0	0	0	5	0	0	1	6
Cariwyd Ymlaen	Dwyrain	3		0		0		0		3		6	
	Gogledd	2		0		0		0		2		4	
	De	5		15		0		0		2		22	
	Gorllewin	6	16	0	15	0	0	0	0	8	15	14	46

Nodyn ar drwy linelliadau GDG: cafwyd 3 trwy linellad (yn rhanbarth y Gorllewin yn unig)

Gwariant Tribiwnlys Priso Cymru 2014-2015 (£)

Maes gwariant	Cyllid a ddyrannwyd	Gwariant	Cyllid sy'n weddill/ gorwariant	Canran y gwariant blynyddol
Cyflogau	701000	693974	7026	99.0%
Pensiynau	137000	132234	4766	96.5%
Is-gyfanswm	838000	826208	11792	98.6%
Costau Swyddfeydd	94000	102766	-8766	109.3%
Gwariant Cyfrifiaduron	94000	99652	-5652	106.0%
Teithio a Chynhaliaeth	93000	74210	18790	79.8%
Cyflenwadau ac Offer	30000	37616	-7616	125.4%
Cyfleustodau	11000	10727	273	97.4%
Costau Cynnal Eraill	35000	33121	1879	94.6%
Hyfforddiant	36000	34574	1426	96.0%
Cyngor Llywodraethu	23000	30712	-7712	133.5%
Is-gyfanswm	416000	423378	-7378	101.8%
Cyfanswm Gwariant	1254000	1249586	4414	99.6%

Nodiadau

- 1 Gwelwyd addasiad sylweddol i gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd ddyraniad eleni dros benawdau cyllideb, mewn ymgais i adlewyrchu patrymau gwariant gwirioneddol yn well. Cafodd dyraniad cronfeydd blynyddoedd blaenorol eu nodi yn llythyr cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru; ond nid oedd llawer o gymhariaeth rhwng y dyraniadau yna a data diweddar. Mae hyn oherwydd mae nifer y penawdau eu hun wastad wedi bod yn arwydd o symiau ac nid capiau: caniatawyd trosglwyddo arian rhwng penawdau. Serch hynny, mae'r gyllideb yn dod yn dynnach ac yn dynnach (eleni, gwelwyd dileu cyllid Blwyddyn 2 ar gyfer apelïadau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a gostyngiad ar y cyfan o 2.5%) mae dadansoddiad o wariant i hysbysu gwariant y gyllideb yn dod yn fwy a mwy difrifol.
- 2 Mae'r "gorwariant" amlwg eleni ar bennawd y Cyngor Llywodraethu o ganlyniad i newid holl wariant sy'n berthnasol i'r Cyngor Llywodraethu i'r pennawd yna. Yn flaenorol, roedd costau teithio a chynhaliaeth a swyddfeydd ar gyfer y Cyngor Llywodraethu a'u pwyllgorau yn cael eu dyrannu i'r penawdau eraill hynny. Gwnaed hyn er mwyn cael syniad gwell o'r gost lawn o lywodraethu'r sefydliad a'u wasanaethau canolog mewnol.